



HELEDD FYCHAN AS

Plaid Cymru - Canol De Cymru



CYNNWYS

Allan yn y Gymuned •
Busnes y Senedd • Cysylltwch â ni

Mae'r cylchlythyr hwn yn gyfle i'ch diweddaru am fy ngwaith a rhai o'r materion rwyf wedi bod yn gweithio arnynt dros y mis diwethaf.

Yn dilyn y newyddion am farwolaeth y Frenhines, cafodd peth gwaith ac ymweliadau eu gohirio am y cyfnod galaru swyddogol. Fe wnes i a'r tim barhau i gefnogi etholwyr gyda gwaith achos, gyda'r argyfwng costau byw ac amseroedd aros ysbytai ymysg rhai o'r pryderon mwyaf i etholwyr.

Er gwaethaf yr oedi ym musnes y Senedd rwyf wedi parhau i godi materion ar ran etholwyr gan gynnwys pryderon diogelwch gyda gwaith ffordd yn Hirwaun, cefnogaeth i ysgolion a disgyblion yn ystod yr argyfwng costau byw yn ogystal â pharhau i gefnogi'r teuluoedd gollodd anwyliad oherwydd Covid-19 drwy barhau i bwysu ar y llywodraeth am wybodaeth am farwolaethau sy'n gysylltiedig â Covid mewn cartrefi gofal.

Rwyf hefyd wedi codi lefelau staffio nyrsys yn ein hysbytai lleol a phryderon addysgwyr yn y cartref am y canllawiau newydd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Heledd Fychan

Heledd Fychan AS



Allan yn y gymuned

Rydw i a fy nhîm wedi parhau i gwrdd gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled y rhanbarth. Ymysg yr uchafbwyntiau dros y mis diwethaf oedd ymweld gyda Ysgol Coedpenmaen i drafod sut y gallwn ni gyd chwarae rôl yn edrych ar ôl ein cymunedau. Cefais hefyd y pleser o gymryd rhan yn yr uwchgynhadledd cyngor eco fel rhan o Wythnos Werdd Pontypridd. Roedd gan yr holl blant a phobl ifanc nifer o syniadau gwych ynglyn a sut i ddiogelu ein planed gan fy ysgogi innau i wneud mwy.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle i longyfarch Paula Evans sydd bellach yn Gynghorydd newydd Plaid Cymru yn Ynysybwl a Choedycwm ar ôl iddi ennill yr isetholiad yn dilyn marwolaeth y di-hafal Tony Burnell. Edrychaf ymlaen i weithio gyda Paula a Amanda Ellis, y Cynghorydd arall dros y ward, i gefnogi trigolion.

Os hoffech i mi ymweld â grŵp neu sefydliad yn eich ardal, neu os hoffech gael cyngor, cysylltwch â fy swyddfa.

Gallwch ddysgu mwy am fy ymweliadau ledled y rhanbarth [yma](#).

Digwyddiad rhwydweithio Costau Byw

Ddiwedd y mis hwn (27 Hydref) byddaf yn cynnal fy nhrydydd digwyddiad costau byw yn y rhanbarth.

Gyda biliau'n codi eto'r mis hwn a'r argyfwng costau byw yn gwaethgu, rydw i'n gwahodd sefydliadau sy'n gweithio ar reng flaen yr argyfwng unwaith eto i ddod ynghyd i drafod ffyrdd ymarferol y gallwn fynd i'r afael â'r argyfwng hwn.

Mae digwyddiadau costau byw blaenorol wedi profi'n llwyddiant gyda sefydliadau lleol.

Gallwch ddarllen adroddiadau o ddigwyddiadau blaenorol [yma](#).



- [Adroddiad Uwchgynhadledd Rhanbarthol Argyfwng Costau Byw:](#)
- [Digwyddiad Rhwydweithio Lleol Cost Byw taf Elái ac Ogwr:](#)

Gall unrhyw sefydliad sy'n gweithio yn y rhanbarth archebu trwy'r ddolen [yma](#) neu drwy ebostio Heledd.Fychan@senedd.cymru

Cefngoi gweithwyr Post

Gwnaeth y Post Brenhinol elw o £758 miliwn y llynedd gan gynnig dim ond 2% o godiad cyflog i weithwyr, sy'n cyfateb i doriad cyflog mewn termau real. Byddai'r cynnig diwygiedig o hyd at 5.5% yn gweld buddion gweithwyr presennol yn cael eu tynnu, gan arwain hefyd at doriad cyflog mewn termau real yn ogystal ag amodau gwaeth i staff.

Ar 8 o Fedi, ymunais â gweithwyr y Post Brenhinol ar y llinell biced ym Mhontypridd i fynegi fy nghefnogaeth gyda'r holl aelodau sy'n streicio. Mae ein gweithwyr post anhygoel yn gweithio drwy'r flwyddyn ym mhob tywydd, gan ddarparu gwasanaeth hanfodol i'n cymunedau. Maen nhw'n haeddu cael eu trin â pharch a derbyn cyflog teg.

Cylch meithrin newydd yng

Nghilfynydd

Roedd yn bleser mynychu agoriad swyddogol y cylch meithrin newydd yng Nghilfynydd a Phont Norton ar y 6 o Fedi.

Mae mynediad i ofal ac addysg blynyddoedd cynnar Cymraeg mor bwysig i gymunedau fel hyn a dyfodol y Gymraeg.

Da iawn i Mudiad Meithrin a phob lwc i'r holl staff a gwirfoddolwyr.



Sustrans

Mis diwethaf, ymunais â Joe o Sustrans Cymru yn ystod yr Wythnos Fawr Werdd i grwydro un o'r nifer o lwybrau teithio llesol yn fy ardal. Ar ôl ymweld ag un o'r llwybrau lleol, mae'n glir bod angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol feddwl yn fwy creadigol ynglyn a sut maen nhw'n mynd i'r afael â chynlluniau teithio llesol.

Mae dirfawr angen atgyweirio nifer o'r llwybrau yn fy rhanbarth, a buddsoddi ynddynt. Pe bai'r llywodraeth yn ymrwymo i greu llwybrau mwy cynhwysol a diogel ar draws y rhanbarth byddai'i cynydd yn y nifer o bobl fyddai'n gallu elwa o fanteision teithio llesol.



Tŷ Hafan

Cefais yr anrhydedd o ymweld â hosbis plant Tŷ Hafan ym Mhenarth. Nod Tŷ Hafan yw diwallu holl anghenion plant a phobl ifanc Cymru sy'n byw bywydau byr, am ddim.

Mae'r hosbis a'u staff yn achubiaeth i blant a'u teuluoedd yn fy rhanbarth a thu hwnt, felly roedd hi'n fraint treulio ychydig oriau yn ymweld a'r cyfleusterau a thrafod yr heriau y mae sefydliadau fel hyn yn wynebu oherwydd costau byw ac argyfwng ynni cynyddol.

Mae Tŷ Hafan wedi gweld eu costau ynni'n cynyddu i £500,000 y flwyddyn o gymharu â £100,000. Mae'r newid hwn yn bryderus iawn yn enwedig gan bydd y cynydd hefyd yn effeithio ar deuluoedd sydd â phlant â chyflyrau sy'n byrhau bywyd sy'n dibynnu ar offer achub bywyd 24/7 yn y ty.

Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu'r berthynas rhwng fy swyddfa a Thŷ Hafan ac rwyf yn adleisio eu galwadau i gyflenwyr ynni yn y DU i gefnogi teuluoedd sy'n dibynnu ar offer achub bywyd ar frys.



Mae'n bryd i Gymru benderfynu os ydyn ni eisiau Tywysog Cymru

Yn dilyn y newyddion am farwolaeth y Frenhines fis diwethaf cafodd teitl 'Tywysog Cymru' ei drosglwyddo'n gyflym diwrnod yn ddiweddarach i fab y Brenin newydd.

Sbardunodd hyn drafodaeth gyhoeddus ffyrnig ynghylch a yw'n bryd dod â'r defnydd o'r teitl i ben. Er fy mod i fy hun yn weriniaethwraig, a byddai'n well gen i weld cynrychiolwyr etholedig yn unig mewn Cymru annibynnol, rwy'n derbyn y bydd eraill yng Nghymru yn teimlo'n wahanol.

Dylai pobl Cymru gael penderfynu o ran sut mae democratiaeth ein gwlad yn cael ei siapio. Ysgrifennais erthygl am hyn yn Nation Cymru y gallwch ei darllen yn llawn [yma](#).





Busnes y Senedd

Oherwydd y cyfnod galaru swydddogol fe gafodd busnes arferol y Senedd ei ohirio o'r 8-19 o Fedi. Er gwaethaf hyn rwyf wedi parhau i ddal y Llywodraeth i gyfrif yn enwedig o ran yr argyfwng costau byw. Ochr yn ochr â fy nghydweithwyr o Blaid Cymru, fe wnaethom alw ar Lywodraeth Lafur Cymru i ddefnyddio'u pwerau i:

- Rewi rhenti a gwahardd dadfeddiannu
- Ymestyn prydau ysgol am ddim i bob disgybl
- Haneru pris tocynnau trên a gosod cap ar brisiau bws
- Torri biliau ynni
- Ymestyn cymorth i fusnesau bach a chanolig ac elusennau

Roedd hi'n siom aruthrol nad oedd aelodau Llafur na'r Ceidwadwyr wedi cefnogi ein galwadau. Mae gennym y grym i wneud newidiadau go iawn i fywydau pobl yma yng Nghymru ac mae angen i ni eu defnyddio. Bydd y methiant i gydnabod bod yr argyfwng hwn yn un sydd yn deillio o benderfyniadau gwleidyddol yn San Steffan yn arwain at farwolaethau dirifedi os na fyddwn yn gweithredu ar unwaith. Byddaf yn parhau i fod yn llais cryf ar hyn yn y Senedd dros y misoedd nesaf.

Rwyf hefyd wedi codi materion ynghylch gwaith deuoli'r A465 o amgylch Hirwaun, llifogydd ym Mhacistan a phresenoldeb Cymru yn Qatar ar gyfer Cwpan y Byd yn ogystal â mynychu digwyddiadau niferus gan gynnwys lansio adroddiad y Coleg Nyrso Brenhinol a bore Coffi Macmillan. Bûm hefyd yn cadeirio cyfarfod o'r pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg, Cyfathrebu, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol a oedd yn canolbwyntio ar addysg cyfrwng Gymraeg.

Prydau ysgol am dim

Diolch i ddylanwad Plaid Cymru, mae'r gwaith o gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd wedi dechrau, gyda pob disgybl dosbarth derbyn bellach yn eu cael.

Tra bod y gwaith o ymestyn i fwy o ddisgyblion yn mynd rhagddo, rwyf wedi galw am adolygiad o'r meini prawf ar gyfer prydau ysgol am ddim fel bod mwy o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn eu derbyn. Bydda'i hyn yn helpu teuluoedd sydd yn dioddef yn sgil yr argyfwng costau byw.

Rhowch wybod i mi os ydych yn wynebu unrhyw broblemau ynghylch prydau ysgol neu os ydych yn cael trafferth fforddio bwyd i'ch plant. Rydw i'n gweithio gyda Cynghorwyr Lleol i sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu datrys cyn gynted â phosib.





Cyfarfod â'r tîm

Danny Grehan - Swyddog Ymgysylltu â'r
Gymuned

Amanda Elis - Swyddog Ymgysylltu â'r
Gymuned

Brooke Webb - Swyddog Cyfathrebu

Eleri Griffiths - Gweithiwr Achos

Wendy Allsop - cynorthwy-ydd gweinyddol

Ken Moon - Cydlynnydd Dyfodol Cynaliadwy

Sut y gallwn helpu

Rwy'n cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd, i
gynnig help a chefnogaeth i etholwyr.

Fe allaf i a fy nhîm helpu gyda amrywiaeth
eang o faterion megis echyd, Tai, Trafnidiaeth,
Addysg a'r Amgylchedd.

Os oes yna unrhyw beth y gallaf wneud i'ch
helpu, cysylltwch i drefnu apwyntiad trwy ebost
neu ffôn.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda
chynghor ar bopeth i gynnal cymorthfeydd
cynghor yn y swyddfa. Mae rhestr o'r dyddiadau
a sut i drefnu apwyntiad ar gael ar fy ngwefan
yma.



Cysylltwch â Heledd



01443 853214



Heledd.Fychan@Senedd.Cymru



2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ



Heledd Fychan AS / MS



@Heledd_Plaid



@Heledd_Plaid



Plaid Cymru
Party of Wales



Senedd Cymru
Welsh Parliament